



1931-1979

Christopher Evans

Gwyddonydd cyfrifiadurol, seicolegydd ac awdur dylanwadol

Gwyddonydd cyfrifiadurol a seicolegydd oedd Christopher Evans. Roedd yn argymhell ymagwedd newydd at gyfrifiadura, a chynhaliodd ymchwil ar ryngweithiadau dynol-cyfrifiadurol a dyfodol cyfrifiadura. Ganed Evans yn Aberdyfi a chafodd ei addysg yng Ngholeg Crist, Aberhonddu. Ar ôl gwasanaethu yn yr Awyrlu Brenhinol, astudiodd Seicoleg yng Ngholeg y Brifysgol, Llundain, a Ffiseg ym Mhrifysgol Reading, lle enillodd ei PhD am waith ar symudiad llygaid. Wrth ymuno â'r Labordy Ffisegol Cenedlaethol (NPL) ym 1963, cymhwysodd ei arbenigedd technegol ar olwg dynol a sain i gyfrifiadura.

O dan Donald Watts Davies, sefydlodd uned ryngweithio dyn/peiriant arloesol yr NPL, a datblygodd systemau newydd gan ddefnyddio'r microgyfrifiaduron newydd. Arbenigedd penodol oedd systemau sgwrsio, megis system cyfweld cleifion Mickie a allai gofnodi hanes meddygol cleifion trwy gwestiynau ac atebion; a system Mavis a ddarparodd ddulliau mewnbwn ac allbwn newydd i helpu pobl anabl i ddefnyddio cyfrifiaduron. Defnyddiwyd ei systemau mewn ysbytai ac unedau perthnasol eraill.

Gan sylweddoli cyflymder y newid mewn cyfrifiadureg, ar gyfer yr Amgueddfa Wyddoniaeth, Llundain, recordiodd gyfweiliadau hanesyddol bwysig gyda llawer o arloeswyr cyfrifiadura cynnar gan gadw eu barn ar eu cyfraniadau eu hunain. Ym 1979, cyhoeddodd Evans y gwerthwr gorau The Mighty Micro: The Impact of the Computer Revolution lle cynigiodd weledigaeth lle byddai cyfrifiadureg yn dod yn hollbresennol. Daeth hon yn gyfres deledu, a gyflwynwyd gan Evans ei hun. Bu farw Christopher Evans o ganser yn 1979, cyn i'r gyfres gael ei darlledu ar ITV.

Enw llawn: Christopher Riche Evans

Ganwyd: 29 Mai 1931

Tref enedigol: Aberdyfi, Cymru

Galwedigaeth: Gwyddonydd cyfrifiadurol, seicolegydd, ac awdur

Bu farw: 10 Hydref 1979

Adnabyddus am: Llyfr The Mighty Micro: The Impact of the Computer Revolution



History of
Computing
Collection

technocamps

@technocamps

